# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymgynghoriad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

# Papur Ymateb gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

**1. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg? [gweler hefyd gwestiynau 4, 5 ac 11 isod]**

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth ar y Gorchymyn arfaethedig sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi arwain ymgyrch gyhoeddus gref yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg. Yn wir, credwn ei fod yn gyfrifoldeb moesol ar Lywodraeth y Cynulliad i ddeddfu dros y Gymraeg a galwn ar y Cynulliad i ofyn i Lywodraeth San Steffan am drosglwyddo'r holl bwerau dros y Gymraeg, heb unrhyw gyfyngiadau, i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Galwn am Fesur(au) Iaith cyflawn ac effeithlon fydd yn sefydlu statws swyddogol i'r iaith Gymraeg, diffinio hawliau pendant i bobl Cymru fedru defnyddio a chael mynediad teg i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ynghyd a sefydlu Comisiynydd i'r Iaith Gymraeg.

**2. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â pha wasanaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog? [Er mwyn gweld trafodaeth fanylach ar yr agwedd hon, gweler cwestiynau 6-9 ac 11 isod]**

Mae'n holl bwysig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd y cyfle hanesyddol hwn i wireddu'r weledigaeth yn Iaith Pawb, sef: *"Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd"*. Mae gennym dystiolaeth eang sy'n dangos gwendidau a methiannau y sefyllfa deddfwriaethol presennol. Mae mawr angen creu hawliau ieithyddol fydd yn gwarantu gwasanaethau dwyieithog effeithiol; gwasanaethau sydd yn hygyrch, yn deg ac yn amlwg i'r cyhoedd. O ganlyniad, credwn yn gryf y dylai pob person neu gorff sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd gael ei gynnwys yn y Gorchymyn - waeth beth yw statws y person/corff hwnnw o ran perthyn i'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

**3. A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd? [gweler hefyd gwestiwn 10 isod]**

Credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddeddfu er mwyn sefydlu nid yn unig rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ond hefyd er mwyn sefydlu hawl pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae diffyg hawliau yn creu sefyllfa o orthrwm ac anghydraddoldeb lle gwahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sydd yn defnyddio'r Gymraeg ac yn ceisio cael mynediad i'r Gymraeg.

Mae cyfrifoldeb ar y Llywodraeth i sefydlu hawliau er mwyn amddiffyn a hybu urddas pobl Cymru wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae angen ystyried yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun maes cydraddoldeb; e.e. sefydlir hawliau merched, pobl anabl, pobl hoyw, pobl o hil a thras ethnig wahanol trwy ddeddfwriaeth.

Dylai fod digon o rym yn y Gorchymyn er mwyn i'r Cynulliad allu pasio Mesur(au) sy'n sefydlu'r hawliau penodol canlynol;

- Yr hawl i gael addysg yn Gymraeg
- Yr hawl i dderbyn gwasanaethau, gwybodaeth, cyfleusterau a nwyddau yn Gymraeg
- Yr hawl i gael gwrandawiad llys a rheithgor yn Gymraeg

- Yr hawl i barch ac i fod yn gyfartal ac i beidio dioddef camwahaniaethu neu anfantais wrth ddefnyddio neu arddel y Gymraeg

**4. Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Materion 20.1 a 20.2? hy Mater 20.1: Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb;**

Cytunwn â'r egwyddor.

**Mater 20.2: Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).**

Cytunwn â'r egwyddor ond ni chytunwn gydag unrhyw gyfyngiadau.

**5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 20.1 yn adleisio'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny a hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac adeiladu ar y swyddogaethau hynny. A ydych yn cytuno y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad wneud hyn? Os na, sut y dylid ei ddiwygio?**

Dyma gwestiwn technegol. Ond nodwn fod angen ychwanegu at egwyddorion Deddf yr Iaith 1993 er mwyn ateb gofynion yr oes sydd ohoni ac adeiladu ar wersi a ddysgwyd trwy greu deddfwriaeth iaith flaengar mewn gwledydd eraill megis Gwlad y Basg a Chatalwnia nad yw'n ymgyfyngu i'r sector gyhoeddus..

**6. Beth yw eich barn ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig o ran y categorïau o bersonau y byddai'n caniatáu i'r Cynulliad osod dyletswyddau arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn ddwyieithog i'r cyhoedd, hy a yw wedi'i lunio'n rhy gul neu'n rhy eang (Mater 20.1 (a) - (i))? Nodwch yn glir yr isadran/isadrannau y mae eich sylwadau yn ymwneud â hi/â hwy, hy (a) - (i) ac unrhyw isadrannau o dan (h).**

Mae cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn rhy gul; mae'n glynu'n rhy agos at Ddeddf 1993 wrth ganolbwyntio bron yn llwyr ar y sector gyhoeddus. Mae cymdeithas gyfoes wedi newid gyda'r sector gyhoeddus wedi crebachu ers 1993. Bellach y mae mwy a mwy o wasanaethau yn cael eu cyflenwi drwy bartneriaethau traws-sector neu wedi eu preifateiddio'n llwyr. Petai'r Gorchymyn yn cael ei basio yn ei ffurf bresennol, byddai gan y Cynulliad ychydig mwy o bwerau na sydd ganddo yn awr i ddeddfu ym maes y Gymraeg, ond mae'n gwbl amlwg na fyddai ganddo ddigon o bwerau i gyrraedd y nod o greu cymdeithas ddwyieithog. Y gwir yw, ar hyn o bryd nid yw pobl Cymru yn rhydd i fyw eu bywydau yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis; gall pawb ddewis byw bywyd yn Saesneg, ond ni all neb fyw bywyd yn llwyr drwy'r Gymraeg. Mewn rhai meysydd mae cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyflawn, mewn meysydd eraill mae modd defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau ar rai adegau, ac mewn meysydd eraill nid yw'n bosibl defnyddio'r Gymraeg o gwbl. Mae'r ddau ddosbarth diwethaf yn amlycach na'r cyntaf. Nid yw'n glir i'r dinesydd pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael ac oherwydd natur dameidiog ac ansawdd isel y gwasanaethau dwyieithog presennol, mae disgwyliadau a hyder y dinasyddion ynddynt yn isel. Mae'r sefyllfa bresennol yn anghyfartal.

Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i gyrraedd y nod y mae wedi gosod i'w hun yn *Iaith Pawb*, bydd angen ewyllys a grym arni i wneud hynny. Ni all deddfwriaeth ddarparu'r ewyllys, ond fe all ddarparu'r grym. Dyma gyfle hanesyddol i drosglwyddo'r holl bwerau angenrheidiol i greu Cymru ddwyieithog. Ond yn anffodus, y cyfan a geir yn y Gorchymyn fel y mae yw ail ddatganiad o gynnwys Deddf '93 gydag ambell ychwanegiad. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn addo llawer mwy: *"Mae'n un o'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y cynigion hyn y dylai dinasyddion feddu ar ddealltwriaeth glir o lefel y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg y gallant ddisgwyl eu cael ni waeth beth fo natur y darparydd cyhoeddus"* (ME para 21). Ond er gwaethaf y rhethreg, mae natur y

darparydd yn ganolog i’r Gorchymyn hwn - h.y. dim ond cyrff cyhoeddus, cyrff eraill sy’n darparu ar ran corff cyhoeddus neu gyrff a fu gynt yn gyrff cyhoeddus (h.y. cyfleustodau) sy’n cael eu cwmpasu. Erbyn hyn, mae cenhedlaeth o bobl nad ydynt yn cofio bod cwmnïau nwy wedi bod yn gyfleustodau cyhoeddus, felly ni fydd yn glir iddyn nhw pam mae’r rhain yn cael eu cwmpasu a pham nad yw cwmnïau petrol car ddim yn cael eu cwmpasu - darparwyr tanwydd yw’r ddau.

Ymddengys i ni fod Llywodraeth y Cynulliad, sef clymblaid o ddwy blaid sosialaidd, wedi ildio i alwad cyson busnesau mawr i beidio â chael eu rheoleiddio o ran darparu gwasanaeth dwyieithog. Gwell, y mae’r CBI ac eraill yn dadlau, yw dibynnu ar yr egwyddor wirfoddol a hunanreoleiddio. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld pa mor aneffeithiol y mae’r sector bancio wedi bod wrth ei “reoleiddio” ei hun ac mae llywodraeth, a dinasyddion y wlad yn y pen draw, wedi gorfod talu’n ddrud am flynyddoedd o “reoleiddiad ysgafn ei gyffyrddiad”. Mae methiant y sector busnes i ddarparu gwasanaethau dwyieithog cyflawn uchel eu hansawdd o wirfodd yn gofyn am ymyrraeth gan lywodraeth yn yr un ffordd er mwyn diogelu hawliau dinasyddion. Gwneud elw yn y tymor byr costed a gosto sy’n llywodraethu gweithgaredd y busnesau mawr, er gwaethaf rhethreg wag “cyfrifoldeb cymdeithasol”, dyletswydd llywodraeth yw sicrhau nad yw’r gweithgaredd hwn yn tresmasu ar hawliau dinasyddion.

Beth bynnag, yn ein barn ni ceir elfen o godi braw a chorddi’r dyfroedd gan y CBI. Yn ddiweddar, fe gynhaliodd Cymdeithas yr Iaith arolwg o gwmnïau preifat yn gofyn a fyddent yn gadael Cymru pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i sefydlu gwasanaethau dwyieithog. Dyma ymateb rhai ohonynt;

Cwmni Boots: *“We do not intend to bring to an end any of our activities in Wales following the Welsh Language LCO, or the anticipated measures following the LCO.”*

Cwmni O²: *“No, we are committed to providing a great experience to our Welsh customers.”*

Cwmni Co-op: *“If the order, which if given will transfer the power to create Acts from London to the Welsh Assembly, is passed I can confirm that this shouldn’t have an impact upon The Co-operative Bank operations in Wales.”*

Abbey: *“With regard to your question, the simple answer is no.”*

Mewn difrif, ym mhle yn Ewrop y ceir enghreifftiau o gwmnïau sydd wedi gadael yn sgil pasio deddfwriaeth iaith? Mae cwmnïau rhyngwladol yn barod i gydymffurfio â deddfwriaeth iaith yn y gwledydd lle maent am fasnachu.

Dim ond ichi edrych ar wefan IKEA (http://www.ikea.com/)- mae'r safleoedd ar gyfer Gwlad Belg, Hong Kong, a Chanada yn ddwyieithog, mae safle'r Swistir yn dairieithog - mae dwyieithrwydd/amlieithrwydd yn swyddogol ac yn norm yn y gwledydd hynny. Uniaith Sbaeneg yw prif dudalen Sbaen, ond os ewch i'r tudalennau ar gyfer l'Hospitalet yng Nghatalwnia, mae'r manylion ar y dudalen sy'n benodol i'r siop honno mewn Catalaneg yn unig! Mae modd lawrlwytho pamffledi gwahanol ar geginau, cypyrddau, gwelyau etc. mewn Catalaneg a Sbaeneg. Peth amser yn ôl, rhoddwyd canmoliaeth hael gan Alun Pugh ( Cyn-Weinidog dros yr Iaith Gymraeg ) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg am fod ychydig o arwyddion dwyieithog yn siop IKEA yng Nghaerdydd. Ond ni wnaeth eu perswâd nhw ddwyn cymaint o ffrwyth â deddfau iaith Catalawnia. Os ewch i'r dudalen gyfatebol ar gyfer y siop yng Nghaerdydd (http://www.ikea.com/ms/en_GB/local_home/cardiff.html), does dim gair o Gymraeg yno. Os ydych chi'n mynd i'r dudalen honno a 'Gofyn i Anna' os yw hi'n siarad Cymraeg, mae hi'n rhoi llond ceg o gibberish i chi! Mae IKEA yn gwybod nad oes rhaid iddynt roi gwasanaeth yn Gymraeg. Ar ddiwedd y dydd, nid ydi cost cyfieithu rhan o wefan neu arwyddion yn mynd i rwystro cwmni mawr rhyngwladol fel IKEA.

Beth bynnag, mae’n bwysig ystyried y ddadl y byddai Cymreigio’r sector breifat yn fodd i roi hwb anferth i’r economi yng Nghymru - er mwyn rhoi gwasanaeth dwyieithog, mae angen yr adnoddau i wneud hynny. Yn aml iawn mae’r adnoddau dynol eisoes gan y cwmnïau - staff Cymraeg eu hiaith - ond naill ai maen nhw’n cael eu gwahardd rhag defnyddio’r iaith yn y gwaith, neu dyw’r cwmnïau ddim yn gwneud y defnydd gorau ohonyn nhw. Mewn ambell faes, bydd angen hyfforddi staff - naill ai dysgu neu

loywi iaith ac/neu hyfforddiant mewn sut i roi gwasanaeth dwyieithog . Bydd angen cyfieithwyr a golygyddion. A bydd angen datblygu technolegau sy'n gallu helpu cwmnïau a chwsmeriaid i gyfathrebu â'i gilydd yn ddwyieithog. Bydd dod â'r Gymraeg i mewn i'r sector breifat yn rhoi hwb enfawr i'r diwydiannau iaith yng Nghymru. Nonsens yw hi y byddai Tesco, PC World neu Lloyds TSB yn cau eu holl siopau/canghennau yng Nghymru gyda dyfodiad Deddf Iaith gynhwysfawr. Petasai rheidrwydd arnynt i ddarparu taflenni, posteri, staff mewn siopau, staff ar y ffon etc. Cymraeg i gwsmeriaid yng Nghymru, maen nhw'n fwy tebygol o benderfynu sefydlu adran yng Nghymru i ddelio gyda'r materion yma, fydd yn golygu MWY o waith yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae De Cymru fel arfer yn cael ei wasanaethu gan brif swyddfa rhywle yn ne Orllewin Lloegr, a gogledd Cymru yng ngogledd orllewin Lloegr. Ni fyddai yn gwneud synnwyr i gael staff yn y swyddfeydd yma i drefnu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly dyma ddadl gref dros sefydlu prif adran i Gymru fel endid wedi ei lleoli yng Nghymru, lle mae modd argraffu'r holl bosteri, taflenni, labeli bwyd own-brand ayb yn ddwyieithog a chael staff dwyieithiog.

Nodwn ein sylwadau ar y cymalau penodol (a) i (h);

**(3)(2)(a) Awdurdodau cyhoeddus**

Dim byd newydd yma – tebyg i Ddeddf yr Iaith.

**(3)(2)(b) Contractio allan**

Dim byd newydd yma – mae Gweinidogion Cymru eisoes yn cael gwneud hyn o dan Ddeddf yr Iaith a.6(1)(o)(ii).

**(3)(2)(c) Cyrff a sefydlwyd drwy ddeddfiad**

Dim byd newydd yma – tebyg i Ddeddf yr Iaith.

**(3)(2)(d) Cyrff sydd wedi cael swyddogaethau darparu gwasanaeth i'r cyhoedd drwy ddeddfiad**

Tebyg i'r uchod.

**3(2)(e) Cyrff sy'n cael £200,000 neu ragor gan y trethdalwyr**

Nid yw'r rheswm dros y trothwy o £200,000 yn amlwg.

**3(2)(f) Cyrff rheoleiddio proffesiynau**

Pwysig o ran rhoi'r Gymraeg yn y byd gwaith.

**3(2)(g) Landlordiaid cymdeithasol.**

Mae'n dda bod y rhain i mewn.

**3(2)(h)(i) cyfleustodau (nwy, dwr, trydan)**

Mae'r Byrddau Dwr eisoes wedi cael eu dwyn i mewn i fyd cynlluniau iaith o dan Ddeddf yr Iaith.

**(ii) gwasanaethau carthffosiaeth**

Faint o'r rhain sydd yng Nghymru neu i ba raddau maen nhw'n ymwneud â'r cyhoedd?

**(iii) gwasanaethau post a swyddfeydd post**

Mae'r Post Brenhinol a Swyddfeydd Post eisoes wedi dod i mewn o dan y Ddeddf, ond mae'n debyg y byddai gwasanaethau post eraill fel TNT, *couriers* etc  yn dod i mewn, sy'n beth da.

**(iv) gwasanaethau telathrebu**

Mae'n dda bod y rhain i mewn. Rydym newydd gyflwyno deiseb o dros 1,400 o enwau yn galw am wasanaethau dwyieithog yng Nghymru gan gwmnïau ffonau symudol, Nodwn ymateb gwarthus gan gwmni ffon '3'. *"We understand that the majority of Welsh speakers also speak English as either a first or second language... Whilst we are unable to offer a dedicated Welsh language service to these people we are also in such a position with the roughly 600,000 people who each speak Arabic, Bengali, Pahari, French or Polish and reside in the UK"*

Ond, fel y mae'r Gorchymyn wedi ei lunio byddai Tesco Mobile i mewn ond archfarchnadoedd Tesco ddim. Nid oes eglurdeb a chysondeb i'r dinesydd.

**(v) cyrff addysg**

Mae'n dda bod y rhain i mewn.

**(vi) rheilffyrdd**

Pam y rheilffyrdd yn unig? Beth am fysys, awyrennau, llongau, porthladdoedd? Byddai Trenau Arriva yn cael eu cynnwys, ond nid bysus Arriva. Nid oes eglurdeb a chysondeb i'r dinesydd.

**(vii) byrddau arholi**

Mae'n dda bod y rhain i mewn.

**(i) gwirfoddolwyr**

Da clywed y bydd pobl yn cael optio i mewn.

Yn ein barn ni mae'r Gorchymyn yn canolbwyntio ar bethau sydd yn bwysig ond yn ymylol o safbwynt bywyd bob dydd.  Er enghraifft; mae rhyw 60% ohonon ni'n siopa o leiaf unwaith yr wythnos, gyda 24% yn siopa yn amlach na hynny'r wythnos. Mae dros 90% ohonom yn siopa mewn archfarchnadoedd.[1] Does dim dwywaith nad ydy archfarchnadoedd, yn enwedig y pedwarawd mawr (Tesco, Asda, Morrison a Sainsbury) yn ddylanwad aruthrol yn ein bywydau beunyddiol.  Yn ogystal â bwyd, maent yn gwerthu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i ofalu amdanom o'r crud i'r bedd.  Cyn ogystal â bwyd babis a chewynnau, cewch gynilo arian i'ch plant mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Blant gan Tesco neu fynd ar eu cyrsiau gofalu am blant (BabySafe Course) - y cyfan drwy'r Saesneg; neu wrth feddwl am adael rhywbeth i'ch plant a'ch wyrion ar ôl ichi farw, cewch brynu ewyllys yn Tesco (un Saesneg wrth gwrs). Mae'n wir bod pob un o'r archfarchnadoedd yn cynnig rhyw faint o wasanaeth yn Gymraeg h.y. ambell arwydd yn y siopau, ond mae'r ddarpariaeth yn denau ac yn anwastad.  Cewch hunan-sganio eich neges yn Tesco ac M&S, ond ddim yn y lleill.  Mae rhywfaint o Gymraeg ar wefan Morrison (http://www.morrisons.co.uk/Cymraeg/) ond dim gair o Gymraeg  ar y lleill.

Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am sicrhau bod dinasyddion Cymru yn cael byw eu bywydau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis, rhaid cynnwys y sector breifat yn ei chyfanrwydd.  Mae'r sector breifat wedi cael ugain mlynedd a rhagor o gyfle i wirfoddoli i gynnig gwasanaeth dwyieithog, ond tamaid fan hyn a thamaid fan draw yw hi, a dyna fydd hi heb ddeddfu.

---

[1] http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/grocery/pdf/working_paper_grocery_shoppers.pdf

Yr hyn a gynigiwn ni ydyw system o sefydlu codau ymarfer yn nodi beth yw'r camau priodol ar gyfer darparwyr o fewn pob sector gan roi ystyriaeth i'r canlynol:

(a) nifer y personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau;
(b) lleoliad y darparwr gwasanaethau;
(c) natur ieithyddol yr ardal y mae'r darparwr gwasanaethau yn ei gwasanaethu fel y'i disgrifir yn yr atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn isadran 7(2)(d);
(ch) natur defnyddwyr y gwasanaethau; a
(d) natur y gwasanaethau a ddarperir.

Felly, mae'n debyg y byddai disgwyliadau uwch gan archfarchnad sy'n cyflogi 50 o bobl mewn ardal lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg na gan siop trwsio beiciau bach yn Noc Penfro sy'n cyflogi dau berson. Mae'r archfarchnad yn cynnig gwasanaethau cyffredinol wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r siop trwsio beiciau yn cynnig gwasanaeth arbenigol ar gyfer arbenigwyr. Byddai gan y ddau le ddyletswydd i gydymffurfio â lefel sylfaenol o wasanaeth e.e. arwydd yn Gymraeg yn dweud beth yw natur y busnes ar y tu allan, ond mae'n bosib y byddai'r cod yn mynnu bod busnes fel yr archfarchnad yn rhoi arwyddion mewnol yn Gymraeg, gwneud cyhoeddiadau dros yr uchel seinydd yn Gymraeg a sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i helpu cwsmeriaid hefyd.

**7. A yw'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer "awdurdodau cyhoeddus" ar gyfer y Mater hwn yn briodol ("pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998")? Os na, pa ddiffiniad y dylid ei ddefnyddio a pham?**

Ymddengys fod y diffiniad yn briodol, er mae angen sicrhau mwy o eglurder i ddinasyddion o'r diffiniad pan ddaw hi i lunio mesur.

**8. Byddai Mater 20.1 yn caniatáu i ddyletswyddau gael eu gosod ar "wasanaethau telathrebu" a "gwasanaethau post a swyddfeydd post" (Mater 20.1 isadran (h)(iii) a (h)(iv)). A yw'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer "gwasanaethau post", a "gwasanaethau telathrebu" o dan yr adran "Dehongli'r maes hwn" yn y Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol ac yn briodol? Os na, sut y dylid mynd ati i'w hailddrafftio a pham y dylid gwneud hyn?**

Mae'n angenrheidiol fod y diffiniadau o'r gwasanaethau telathrebu a'r gwasanaethau post (yn enwedig o ystyried y camau i breifateiddio rhan o'r gwasanaeth yma) yn aros fel ag y maent er mwyn sicrhau dilyniant pan ddaw hi i lunio Mesur.

**9. Mewn perthynas â Mater 20.1, isadran (e) -** ***"personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol", sef "arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol":***
**(i) A yw'n angenrheidiol nodi'r diffiniad o "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a yw'n briodol (fel y'i nodir o dan "Dehongli'r maes hwn")?**

Oherwydd cymhlethdodau ariannu gydag arian yn dod o Lywodraeth Ganol i Lywodraeth y Cynulliad i gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, fel Cyngor y Celfyddydau, i gwmni theatr e.e. mae'n bwysig nodi "uniongyrchol" ac "anuniongyrchol" er mwyn dal popeth.

**(ii) Byddai dyletswyddau ond yn cael eu gosod ar bobl sy'n derbyn mwy na £200,000. Ai £200,000 yw'r trothwy cywir i'r Cynulliad gael pwerau deddfu?**

Ni chytunwn y dylid gosod unrhyw drothwy. A yw'n ofynnol i ddinasyddion Cymru cadw golwg ar ba gwmnïau sydd yn derbyn y swm yma cyn medru disgwyl gwasanaethau cyflawn? A fydd cwmni yn parhau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog am gyfnod yn hirach na blwyddyn ar ôl derbyn y swm?

**10. A yw cwmpas Mater 20.2 yn briodol ("darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau**

**sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw)")? A fydd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu yn y dyfodol er mwyn gweithredu'r cynnig fel y mae wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol?**

Credwn y dylai'r rhyddid yma gael ei ailddiffinio fel mater o hawl er mwyn rhoi terfyn ar unrhyw orthrwm yn erbyn dinasyddion sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r rhyddid eisoes gyda ni – yr hawl sy'n bwysig. Ni chytunwn ar unrhyw gyfyngiadau ar yr hawl honno.

**11. Beth yw eich barn ynghylch Erthyglau 4 a 5 y Gorchymyn arfaethedig sy'n ymdrin â chymhwyso'r Gorchymyn arfaethedig i gyrff y Goron?**

Mae erthyglau 4 a 5 yn rhy hael i Weinidogion y Goron – dylent fod yn agored i gael eu cosbi fel troseddwyr os ydynt yn troseddu yn erbyn hawl pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg.. Os ydyn nhw'n gwneud beth maen nhw i fod, does gyda nhw ddim byd i'w ofni. Ond mae hen ddigon o dystiolaeth gyda ni i ddangos bod rhai adrannau o lywodraeth Llundain yn ogystal ag ambell Weinidog yn Llywodraeth y Cynulliad wedi/yn dewis peidio â thrin yn ddwy iaith ar sail cydraddoldeb, ond does dim dull o orfodi'r ddyletswydd arnynt. Rydyn ni'n siŵr y byddent yn cytuno â'r egwyddor nad oes neb uwchlaw'r gyfraith.

**12. A oes unrhyw faterion eraill a fyddai'n dylanwadu ar effeithiolrwydd unrhyw Fesurau yn y dyfodol gan nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang? Os felly, a allwch awgrymu sut y byddai'n rhaid ehangu'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?**

Petai'r Cynulliad yn dymuno ychwanegu unrhyw un categori arall o ddarparydd gwasanaethau cyhoeddus at y rhestr yn y dyfodol (e.e archfarchnadoedd) neu hyd yn oed un math tebyg o ddarparydd nas enwyd (e.e. bysiau), byddai angen mynd drwy'r holl broses lafurus hon o lunio a chyflwyno LCO gerbron y Cynulliad, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Does dim ffordd hwylus o ychwanegu un neu ragor o gategorïau at y rhestr, felly mae naill ai angen i'r rhestr yn y Gorchymyn hwn fod yn hirach ac yn fwy cynhwysfawr er mwyn cwmpasu pob darparydd nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd neu, a dyma sy'n well y ein barn ni, roi geiriad ehangach i mewn er gosod dyletswyddau i roi gwasanaeth dwyieithog ar "*personau sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd*" . Gellid dilyn y patrwm sydd yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (a.19).[2] Gellid diwygio'r Gorchymyn felly i ddarllen "Nid yw'r mater hwn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio personau sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'r cyhoedd boed hynny am dâl ai peidio" a hepgor y rhestr (a) i (i) yn Gorchymyn arfaethedig. Mae'r Gweinidog eisoes wedi esbonio i'r Pwyllgor hwn nad yw'n sicr y bydd yr holl bwerau cyfyngedig a geir yn y drafft presennol yn mynd i gael eu

---

[2] 19 Discrimination in relation to goods, facilities and services
[1] It is unlawful for a provider of services to discriminate against a disabled person—
(a) in refusing to provide, or deliberately not providing, to the disabled person any service which he provides, or is prepared to provide, to members of the public;
(b) in failing to comply with any duty imposed on him by section 21 in circumstances in which the effect of that failure is to make it impossible or unreasonably difficult for the disabled person to make use of any such service;
(c) in the standard of service which he provides to the disabled person or the manner in which he provides it to him; or
(d) in the terms on which he provides a service to the disabled person.
[2] For the purposes of this section and sections 20 and 21—
(a) the provision of services includes the provision of any goods or facilities;
(b) a person is "a provider of services" if he is concerned with the provision, in the United Kingdom, of services to the public or to a section of the public; and
(c) it is irrelevant whether a service is provided on payment or without payment.
[3] The following are examples of services to which this section and sections 20 and 21 apply—
(a) access to and use of any place which members of the public are permitted to enter;
(b) access to and use of means of communication;
(c) access to and use of information services;
(d) accommodation in a hotel, boarding house or other similar establishment;
(e) facilities by way of banking or insurance or for grants, loans, credit or finance;
(f) facilities for entertainment, recreation or refreshment;
(g) facilities provided by employment agencies or under section 2 of the [1973 c. 50.] Employment and Training Act 1973;
(h) the services of any profession or trade, or any local or other public authority.

defnyddio mewn Mesur gan mai sicrhau bod pwerau ar gael i'w defnyddio yw nod y Gorchymyn yn hytrach na deddfu fel y cyfryw, felly ni fyddai disodli'r rhestr bresennol â geiriad ehangach yn golygu y byddai'r Cynulliad yn *gorfod* defnyddio'r holl bwerau hyn ar unwaith neu byth- mater i aelodau etholedig Cynulliad pobl Cymru fyddai beth i'w ddefnyddio a phryd.

Ein pryder ni yw bod y Gorchymyn fel mae yn gosod arwydd 'Dim Mynediad' ar y ffordd ymlaen i'r iaith Gymraeg Yn wir, mae'r Gorchymyn yn llyffetheirio'r Cynulliad o ran ei allu i basio Mesurau fydd yn gallu sicrhau hawliau pobl Cymru i fyw eu bywydau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gweledigaeth *Iaith Pawb*. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n aruthrol, gymaint fel na all bobl dros 25 mlwydd oed ddirnad. Rhaid sicrhau bod ganddyn nhw hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'w haddysg, a darparu cyfleoedd iddyn nhw weithio a derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

Mae angen trosglwyddo pwerau o Lundain i Gaerdydd a fydd yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu dros ddarparwyr nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau ym mhob sector. Rhaid sicrhau nad rhethreg yn unig yw nod *Iaith Pawb*. Dylid sicrhau y bydd rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yn egwyddor greiddiol a fydd yn treiddio i natur unrhyw ddeddfwriaeth arall a ddaw ym maes y Gymraeg ac ym mhob maes arall. Dylai creu Comisiynydd yr iaith Gymraeg sicrhau fod yna ddatblygiadau pellgyrhaeddol er mwyn sicrhau diogelu hawliau pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Mawrth 2009